**EITEM AR YR AGENDA: 9**

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**
**PANEL GWEITHREDOL**

**20 Gorffennaf 2015**

**UWCH GYFARFOD YNGHYLCH TANAU CEFN GWLAD A GLASWELLT**

**Adroddiad gan Richard Fairhead, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol**

## Diben yr Adroddiad

1 Rhoi gwybod i'r Aelodau am yr uwch gyfarfod ynghylch tanau cefn gwlad a glaswellt a gafodd ei alw gan Brif Weinidog Cymru gan fod y gwasanaethau tân ac achub yng Nghymru wedi mynd at nifer fawr o danau o'r fath yn Ebrill 2015.

## Cefndir

2 Roedd adroddiad i'r cyfarfod o'r Panel Gweithredol ym Mai 2015 yn rhoi gwybod i'r Aelodau fod y gwasanaethau tân ac achub (GTAau) yn gweld cynnydd yn nifer yr achosion o danau cefn gwlad a glaswellt bob gwanwyn. Priodolwyd y cynnydd rheolaidd hwn i amrywiaeth o achosion, gan gynnwys tirfeddianwyr yn llosgi llystyfiant a chynnydd mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol yn ystod gwyliau'r ysgol.

3 Roedd nifer y tanau cefn gwlad a glaswellt yng Ngogledd Cymru yn ystod y gwanwyn eleni yn eithaf tebyg i'r blynyddoedd blaenorol. Ond adroddwyd bod cynnydd sylweddol yn nifer y tanau hyn mewn rhannau eraill o Gymru, yn enwedig yn ne Cymru, ac arweiniodd hynny at y cyfryngau a gwleidyddion yn rhoi sylw i'r tanau eu hunain a'r hyn a'u hachosodd.

## Gwybodaeth

4 Ar 29 Ebrill 2015 cyfarfu'r Prif Weinidog â rhai o Weinidogion eraill Llywodraeth Cymru, Prif Swyddogion Tân, Prif Gwnstabliaid ac uwch gynrychiolwyr o Cyfoeth Naturiol Cymru, yr awdurdodau lleol perthnasol, a'r Swyddfa Feteorolegol i drafod y cynnydd diweddar mewn tanau glaswellt, ac i weithio ar gynllun i ostwng eu nifer.

5 Roedd yr uwch gyfarfod yn nodi cyfres o pump o gamau gweithredu i'r GTAau ganolbwyntio arnynt ac i adrodd ynghylch y cynnydd i Lywodraeth Cymru, sef:

i. ymateb yn gyflym ac yn effeithiol i'r holl danau glaswellt, ac i gefnogi ei gilydd fel y bo'r angen;

ii. parhau i ddarparu rhaglenni wedi'u targedu ar gyfer pobl ifanc sydd mewn perygl o droseddu, a'r rhaglenni hynny â phrawf o'u gallu i'w tynnu oddi wrth droseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol;

iii. gweithio gydag awdurdodau lleol ac ysgolion mewn ardaloedd lle mae'r risg yn uchel er mwyn cyflwyno negeseuon caled am beryglon llosgi bwriadol;

iv. cefnogi dinasyddion a grwpiau cymunedol i ddarparu rhybuddion cynnar am danau glaswellt neu'r bobl sy'n bwriadu cynnau rhai;

v. ystyried defnyddio cerbydau awyr di-griw ("drones") mewn ardaloedd lle mae'r risg yn uchel, a hynny i ganfod y rhai sy'n ceisio cynnau tanau ac i gefnogi'r gwaith o ddiffodd tanau.

6 Mae GTA Gogledd Cymru wedi ymateb i'r camau gweithredu ac wedi darparu gwybodaeth ar y canlynol: ei ymateb gweithredol effeithiol; parhau i ddarparu rhaglen y Ffenics; gweithio drwy'r Tîm Lleihau Llosgi Bwriadol; rhaglen ar gyfer ymweld ag ysgolion; a gweithio o fewn cymunedau Gogledd Cymru yn codi ymwybyddiaeth ac yn hybu diogelwch tân.

7 Rhoddwyd pwyslais arbennig ar ei ymateb yn y gwaith ataliol wedi'i dargedu gyda phlant a phobl ifanc drwy dîm y Ffenics a'r Tîm Lleihau Llosgi Bwriadol. Darparwyd gwybodaeth hefyd ynglŷn â'r gwaith agos a wneir gan GTA Gogledd Cymru gyda'i bartneriaid – yn arbennig Heddlu Gogledd Cymru – a phan fo tanau wedi cael eu cynnau'n fwriadol, ynglŷn â'r camau a gymerwyd gan Heddlu Gogledd Cymru i ymdrin â'r troseddwyr honedig.

8 Tynnwyd sylw at waith GTA gyda thirfeddianwyr, pryd y darperir addysg a gwybodaeth ynghylch eu cyfrifoldebau nhw wrth gynnau tanau i glirio llystyfiant ar eu tir. Rhan o hyn yw fod y tirfeddianwyr yn rhoi gwybod i'r Gwasanaeth eu bod yn bwriadu llosgi, ac mae hynny'n gostwng nifer yr adegau pryd y mae'r Gwasanaeth yn troi allan yn ddiangen i ymateb i adroddiadau a wnaed gydag ewyllys da gan aelodau o'r cyhoedd. Yn chwe mis cyntaf 2015, cafodd y Gwasanaeth 2011 o hysbysiadau am losgi dan reolaeth.

9 Bydd GTA Gogledd Cymru, drwy ei adran cyfathrebu corfforaethol, ei swyddogaeth diogelwch tân a'r Tîm Lleihau Llosgi Bwriadol, yn parhau i weithio â phartneriaid i ostwng nifer y tanau cefn gwlad a glaswellt sydd angen presenoldeb gan y Gwasanaeth.

10 O ran ystyried defnyddio cerbydau awyr di-griw ("drones"), penderfynwyd ar ôl trafod gyda Heddlu Gogledd Cymru nad oes angen eu defnyddio yng Ngogledd Cymru.

## Argymhelliad

11 Bod yr Aelodau'n nodi'r wybodaeth sydd yn yr adroddiad.